

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21

Mai 2020

Argymhelliad cyffredinol

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Pysgodfeydd y DU 2019-21, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb y Gweinidog i bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

Cyflwyniad

1. Cyflwynodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21 ('y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol') ar 12 Chwefror 2020.
2. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor hwn ac at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad i'w drafod, gyda 24 Ebrill 2020 wedi ei bennu fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd. Ymestynnwyd y dyddiad cau wedi hynny i 21 Mai 2020.

Ein dull gweithredu

3. Cawsom dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid ar 11 Mawrth 2020 a chawsom dystiolaeth ysgrifenedig gan Dr Bryce Beukers-Stewart (Prifysgol Caerefrog). Roeddem i fod i gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog ar 25 Mawrth 2020. Yn sgil pandemig coronafeirws Covid-19, canslwyd y cyfarfod. O ystyried hyn, a'r ataliad dilynol o fusnes pwyllgorau nad yw'n allweddol o ran amser, gofynnem i'r Gweinidog ymateb yn ysgrifenedig i'n cwestiynau.
4. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.



Ein gwaith blaenorol ar y Bil Pysgodfeydd

5. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cyhoeddi adroddiad manwl (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'ein hadroddiad cyntaf') ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU 2017-19 ('Bil 2017-2019') a chafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw.
6. Ni chwblhaodd Bil 2017-19 ei hynt drwy'r Senedd cyn diwedd y sesiwn seneddol ddiwethaf.
7. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y darpariaethau y ceisir cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sydd wedi eu hadolygu neu sy'n newydd ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21, ac ar feysydd lle nad aethpwyd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd yn ein hadroddiad blaenorol.

1. Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21 a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

8. Cyflwynwyd Bil Pysgodfeydd 2019-21 ('Bil 2019-21') Llywodraeth y DU yn Senedd y DU ar 29 Ionawr 2020. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil 2019-21:

"...the Bill will provide the legal framework for the United Kingdom to operate under the United Nations Convention on the Law of the Sea (UNCLOS) (the Law of the Sea Convention), with regards to fishing activities in the UK's Exclusive Economic Zone (EEZ), after it has left the European Union (EU)'s Common Fisheries Policy (the CFP)."¹

9. Mae Bil 2019-21 yn debyg i Fil 2017-19 mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, mae'r Nodiadau Esboniadol yn tynnu sylw at y gwahaniaethau allweddol a ganlyn:
 - set unigol o amcanion pysgodfeydd ledled y DU (gan gynnwys 'amcan newid hinsawdd' newydd);
 - dyletswydd i greu cynlluniau rheoli pysgodfeydd i bysgota o fewn terfynau cynaliadwy ar gyfer yr holl stociau;
 - pwerau ehangach o ran cymorth ariannol;

¹ <https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/071/5801071en.pdf>

- pwerau pellach i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i adlewyrchu pwerau tebyg a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol; a
- newid i'r darpariaethau cychwyn.

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Y darpariaethau y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer

10. Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, mae angen cydsyniad ar gyfer pob darpariaeth heblaw Cymalau 4 a 5 (datganiad pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol), a Chymalau 28 i 32 (gwaredu cynlluniau codi tâl i atal)² Disgrifir y darpariaethau yn fanwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

11. Yn yr un modd â Bil 2017-19, mae gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch a oes angen cydsyniad ar gyfer Cymalau 23 i 24,³ mewn perthynas â dosbarthu cyfleoedd pysgota. Yn wahanol i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil 2017-19, nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2019-21 yn cynnig unrhyw ddadansoddiad mewn perthynas â'r gwahaniaeth barn hwn. Caiff dosbarthiad y cyfleoedd pysgota ei drafod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Pysgodfeydd

12. Mae'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil 2019-21, gan ddweud:

"...mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU oherwydd bod angen gweithredu ar lefel y DU gyfan er mwyn creu'r Fframwaith Pysgodfeydd. Dim ond mewn Bil gan Senedd y DU y gellir gwneud hynny. Mae'r Bil hwn hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau y bydd yn rhaid eu gosod cyn diwedd y cyfnod gweithredu. Ar gyfer pwerau nad ydynt yn ymwneud â fframwaith, mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu'n gyflym ac mewn ffordd bendant yng Nghymru, hyd nes y gallwn gyflwyno Bil Pysgodfeydd cynhwysfawr ar gyfer Cymru."⁴

² Yn ôl Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU sy'n cyd-fynd â Bil 2019-21, mae cymalau 28 i 32 yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

³ Y cymalau cyfatebol ym Mil 2017-19 oedd Cymalau 18 - 19.

⁴ <https://senedd.wales/laid%20documents/lcm-ld13024/lcm-ld13024%20-w.pdf>

Ein barn ni

Prif bwrpas Bil 2019-21 yw sefydlu fframwaith ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn y DU ar ôl iddi adael y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin⁵. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai sy'n angenrheidiol i sefydlu fframwaith cyffredin.

Mae'r darpariaethau 'ychwanegol' hyn yn cynnwys llunio rheoliadau helaeth a phwerau gweithredol i Weinidogion Cymru, gyda phwerau pellach yn cael eu hychwanegu ym Mil 2019-21.

Yn ein hadroddiad ar Fil 2017-19, fe wnaethom fynegi pryder ynghylch methiant Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfiawnhad digonol dros geisio pwerau llunio rheoliadau a phwerau gweithredol helaeth drwy Fil y DU. Roeddem yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r materion hyn wrth gyflwyno'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2019-21. Yn anffodus, nid yw hynny'n wir.

Yn ystod ein gwaith craffu ar Fil 2017-19, honnodd y Gweinidog fod y pwerau a gymerir ym Mil 2019-21 yn "drosiannol" a'i bod yn "llwyr fwriadu" cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru cyn diwedd y Pumed Senedd. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt. Er bod y Gweinidog yn honni bod y pwerau yn rhai trosiannol, ni fydd Bil Pysgodfeydd Cymru yn y Pumed Senedd. Mae hyn yn siomedig iawn.

Mewn ymateb i lythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, dywedodd y Gweinidog nad oes angen cynnwys darpariaethau machlud yn y Bil 2019-21, gan ei bod bellach wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru yn y Senedd nesaf. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol na all wneud unrhyw ymrwymiad o'r fath. O'r herwydd, nid yw'r Pwyllgor yn dawel ei feddwl nad oes angen darpariaethau machlud.

Mae Bil 2019-21 yn cyflwyno cryn dipyn o allbynnau a chyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â physgodfeydd i Lywodraeth Cymru a'i His-adran Forol a Physgodfeydd, gan gynnwys datblygu rheoliadau newydd; Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd newydd; trefniadau rhyng-lywodraethol newydd gan gynnwys y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a

⁵ Mae Rheoliad (UE) Rhif 1380/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r Rheoliad, fel cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, wedi ei ddiwygio gan offerynnau statudol a bydd yn cael ei ddiwygio gan Fil 2019-2021, os caiff ei basio.

threfniadau datrys anghydfodau; a mwy o gyfrifoldeb am reoleiddio a gorfodi pysgodfeydd ym mharth Cymru.

Mae'r Pwyllgor hwn, ar sawl achlysur, wedi mynegi pryder ynghylch gallu'r Is-adran hon, gan gynnwys mewn perthynas â'r G. Ym mis Mawrth 2020, rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol wybod i ni fod y tîm hwn yn gweithio o fewn hanner ei gapasiti. Yn yr un modd, mae ein hadroddiad ar y effaith Brexit ar Bysgodfeydd Cymru yn amlygu pryderon ynghylch gallu staff polisi pysgodfeydd a chyfreithiol o fewn Llywodraeth Cymru i ddelio â'r llwyth gwaith cynyddol sy'n deillio o Brexit. Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad gan y Gweinidog ar yr amcangyfrifon diweddaraf o newidiadau yn y proffil staffio a fydd yn angenrheidiol oherwydd Bil 2019-21.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i Fil 2019-21 i gynnwys cymal machlud mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru yn unig.

Argymhelliad 3. Os yw'r Gweinidog o'r farn nad oes angen cymal machlud, dylai'r Gweinidog nodi sut gall weithredu ei hymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog nodi'r amcangyfrifon diweddaraf o newidiadau yn niferoedd a phroffil staffio ei His-adran Morol a Physgodfeydd a'r cymorth gyfreithiol cysylltiedig a fydd yn angenrheidiol o ganlyniad i Fil 2019-21.

2. Amcanion pysgodfeydd

13. Mae Cymal 1 yn nodi 'amcanion pysgodfeydd' y DU⁶, a fydd yn gymwys ledled y DU. Mae'r amcanion wedi newid ers Bil 2017-19. Ailddrafftwyd yr 'amcan cynaliadwyedd', cyflwynwyd amcan 'sgil-ddalfa' yn lle'r 'amcan gwaredu' ac ychwanegwyd amcanion newydd o ran 'budd cenedlaethol' a 'newid yn yr hinsawdd'.

14. Mae'r amcanion yn adlewyrchu, i wahanol raddau, nifer o'r amcanion yn Erthygl 2 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Er bod Rheoliad y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn rhoi dyletswydd ar Aelod-wladwriaethau i gyflawni'r amcanion yn Erthygl 2, nid oes dyletswydd gyfatebol ar weinyddiaethau'r DU i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd ym Mil 2019-21.

⁶ Yr "amcanion pysgodfeydd" yw cynaliadwyedd; rhagofal; ecosystem; tystiolaeth wyddonol; sgil-ddalfa; mynediad cyfartal; buddion cenedlaethol; a newid hinsawdd.

Ein hadroddiad cyntaf

15. Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad ein bod yn fodlon ar y cyfan â'r amcanion pysgodfeydd, yn amodol ar ymrwymiad y byddai'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd yn cynnwys cerrig milltir a, lle bo hynny'n briodol, targedau penodol ac uchelgeisiol, y gellid mesur cynnydd yn eu herbyn. (Casgliad 7). Mae rhagor o fanylion am y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd wedi eu nodi yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

16. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- weithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau diwygiad i Fil 2017-19 i gynnwys gofyniad i adolygu'r amcanion pysgodfeydd (Casgliad 8); ac
- archwilio, fel rhan o'i hymgyngoriad Brexit a'n Moroedd, a yw'n briodol cynnwys mewn Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion (Casgliad 9).

17. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr uchod. Dywedodd y Gweinidog, os nad oedd modd iddi sicrhau gwelliant i gynnwys gofyniad i adolygu'r amcanion pysgodfeydd, ei bod wedi "gofyn, o leiaf, i hyn gael ei gynnwys yn y [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth] Pysgodfeydd fel rhan o'r Adolygiad 6 blynedd o'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd".⁷

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Newidiadau i'r amcanion pysgodfeydd

18. Roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid y newidiadau a wnaed i'r amcanion pysgodfeydd ers Bil 2017-19. Credai academyddion a chynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol fod yr amcanion 'budd cenedlaethol' a 'newid hinsawdd' newydd yn ychwanegiadau pwysig i Fil 2019-21. Fodd bynnag, roedd rhai yn cwestiynu sut byddai'r amcanion hyn yn cael eu dehongli a'u cymhwyso'n ymarferol.

19. Awgrymodd Griffin Carpenter fod yr amcan 'budd cenedlaethol' yn llwyddo rywfaint wrth gydnabod pysgodfeydd fel adnodd cyhoeddus.⁸ Mynegwyd barn

7

<https://busnes.senedd.cymru/documents/s83218/Gohebiaeth%20gan%20Weinidog%20yr%20Amgylchedd%20Ynni%20a%20Materion%20Gwledig%20-%202015%20lonawr%202019.pdf>

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 13-14, 11 Mawrth 2020

debyg gan yr Athro Richard Barnes. Fodd bynnag, tynnodd ef sylw at y ffaith bod y term yn agored i'w ddehongli.⁹ Nododd Dr Beukers-Stewart nad yw'r rheolau penodol ynghylch yr amcan 'budd cenedlaethol' wedi eu datblygu. Ychwanegodd ei bod yn aneglur sut gallai'r amcan fod yn gymwys i longau tramor (e.e. yr Undeb Ewropeaidd) sy'n pysgota yn nyfroedd y DU.¹⁰

20. Roedd ClientEarth¹¹ a Dr. Beukers-Stewart¹² yn croesawu cynnwys yr amcan 'newid hinsawdd', gan gyfeirio at yr amcan honno fel un 'flaengar'. Yn ôl Dr Beukers-Stewart, ychydig o wledydd eraill ledled y byd sydd wedi ymgorffori elfennau newid hinsawdd yn eu cynlluniau rheoli pysgodfeydd.¹³

21. Roedd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru a Bangor Mussel Producers Ltd¹⁴ yn codi pryder bod yr amcan wedi methu â chydabod y cyfraniad cadarnhaol a wnaed gan ddyframaeth wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd.

22. Roedd cefnogaeth eang i ddisodli'r amcan 'gwaredu' gyda'r amcan 'sgil-ddalffa'. Dywedodd Griffin Carpenter ei bod yn synhwyrol symud y ffocws yn gynharach i leihau sgil-ddalffa.¹⁵

Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf

23. Ategodd cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol eu pryder ynghylch y diffyg dyletswydd ar weinyddiaethau'r DU i bennu lefelau pysgota i gyflawni lefelau cynaliadwy (er enghraifft, ar lefel neu'n is na lefel y gyfradd ecsbloetio Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy. Meddent:

“As with the previous version, the Fisheries Bill [2019-21] replaces the legal commitment in the Common Fisheries Policy (CFP) to set fishing limits in line with sustainable levels with a simple aspirational objective to achieve a healthy biomass for stocks. This is a significant omission. This objective is not legally binding, is not subject to any deadline and is dealt with by way of a policy statement that can be disregarded in a

⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 11 Mawrth 2020

¹⁰ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan Dr. Beukers-Stewart](#)

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 279, 11 Mawrth 2020

¹² [Cyflwyniad ysgrifenedig gan Dr. Beukers-Stewart](#)

¹³ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan Dr. Beukers-Stewart](#)

¹⁴ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan Bangor Mussel Producers Ltd.](#)

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, 11 Mawrth 2020

wide range of circumstances...This represents a real regression in environmental standards..."¹⁶

24. Gwnaed pwynt tebyg gan yr Athro Barnes a soniodd fod Bil 2019-21 yn darparu ymrwymiad gwannach i'r Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy nag Erthygl 2 y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Dywedodd:

"Under the UK Fisheries Bill, MSY remains a policy objective. There is no target date for policy measures to be adopted that will achieve the MSY."¹⁷

25. Dywedodd Client Earth wrth y Pwyllgor fod yr angen am degwch mewn trafodaethau â gwledydd nad ydynt yn rhwym wrth ddyletswydd cyfradd ecsbloetio Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy yn Erthygl 2(2) o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin wedi ei ddefnyddio i gyfiawnhau absenoldeb dyletswydd gyfatebol ym Mil 2019-21. Ymddengys mai dyma'r rhesymeg a ddarparwyd gan y Gweinidog yn ei llythyr at y Pwyllgor ar 1 Mai 2020. Barn Client Earth, Greener UK, ac RSPB oedd y dylai Erthygl 33 o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (sy'n parhau i fod yn gyfraith yr Undeb Ewropeaidd) leddfu pryderon o'r fath. Nodir yn Erthygl 33(1):

"Where stocks of common interest are also exploited by third countries, [a fisheries administration must] engage with those third countries with a view to ensuring that those stocks are managed in a sustainable manner that is consistent with this Regulation, and in particular with the objective laid down in Article 2(2). Where no formal agreement is reached, the Union shall make every effort to reach common arrangements for fishing of such stocks with a view to making the sustainable management possible, in particular, concerning the objective in Article 2(2), thereby promoting a level-playing field for [operators within the United Kingdom]."

Diffyg dyletswydd i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd

26. Un o'r prif feirniadaethau mewn perthynas â Bil 2017-19 oedd diffyg dyletswydd ar awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. I gynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol, mae hyn yn parhau i fod yn bryder sylweddol mewn perthynas â Bil 2019-21.

27. Nododd yr Athro Barnes, er nad yw Bil 2019-21 yn cynnwys dyletswydd ar yr awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyflawni'r amcanion, mae'r mecanweithiau

¹⁶ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth ac RSPB](#)

¹⁷ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan yr Athro Barnes](#)

neu'r llwybrau ar gyfer cyflawni'r amcanion mewn gwirionedd yn llawer gwell - maent wedi eu gwella - o'u cymharu â'r Bil blaenorol'.¹⁸ Ychwanegodd:

"...whilst there isn't a duty now, I think there's going to be greater transparency, and there will have to be more explicit reference to the fisheries objectives in the fisheries statement and the management plans, and that will provide a degree of at least political accountability."¹⁹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

28. Esboniodd y Gweinidog mai prif fudd y newidiadau i'r amcanion pysgodfeydd a'r amcanion newydd yw un set o amcanion pysgodfeydd cryfach ledled y DU i sicrhau fframwaith mwy cydlynol yn y DU. Ychwanegodd:

"The previous Bill contained a subset of objectives which have now been included in the main objectives in clause 1, providing increased coherence in fisheries policy making across all four fisheries policy authorities."

29. Dywedodd y Gweinidog y gallai'r 'amcan budd cenedlaethol', er enghraifft, gael yr effaith o fynnu bod o leiaf rhai dalfeydd yn cael eu glanio ym mhorthladdoedd y DU.

30. Yn ôl y Gweinidog, mae'r 'amcan newid hinsawdd' "yn cydnabod effaith pysgota ar iechyd ein cefnforoedd". Ychwanegodd:

"In Wales, we have duties under our own legislation including the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, Environment (Wales) Act 2016 and clear commitments to tackling climate change. Therefore, we support the inclusion of this objective, which brings this UK Bill closer to the existing Welsh situation..."

31. Esboniodd y Gweinidog fod yr 'amcan gwaredu' (yr 'amcan sgil-ddalffa' bellach) wedi ei ailddrafftio i 'adlewyrchu'r canlyniad rydym yn anelu at ei gyflawni yn fwy cywir - diwedd ar arfer gwastraffus gwaredu pysgod sy'n deillio o sgil-ddalffa'.

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 43, 11 Mawrth 2020

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 11 Mawrth 2020

32. Wrth wneud sylwadau ar y pryder ynghylch y diffyg dyletswydd ar weinyddiaethau'r DU i bennu lefelau pysgota i gyflawni lefelau cynaliadwy, dywedodd y Gweinidog:

“We all want to fish sustainably, and MSY is the international standard. Indeed, I have been clear the UK Fisheries Bill could go further on MSY...”

33. Fodd bynnag, dywedodd hefyd:

“We also need to recognise the UK is not the only interested party. Almost all of our stocks are shared internationally. The annual quotas will be set at coastal states’ negotiations. A legally binding duty, which required the UK to effectively walk away if the other nations would not comprise, is in no one’s interest and could lead to unsustainable unilateral quota setting.

We are committed to fishing at levels below that which would achieve MSY as advised by ICES [International Council for the Exploration of the Sea], where appropriate. It is important Ministers, when taking these difficult decisions, are able to continue to balance all elements of sustainability.”

34. Esboniodd y Gweinidog, er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio diwygiad i Fil 2019-21 i gynnwys gofyniad i adolygu'r amcanion pysgodfeydd, barn gyfunol pedair gweinyddiaeth y DU oedd nad oedd hynny'n angenrheidiol 'o ystyried natur lefel uchel yr amcanion'. Dywedodd fod yr amcanion 'yn gonglfeini rheoli pysgodfeydd modern ac rydym eisiau cynnal sicrwydd a'u hosgoi rhag cael eu newid yn rheolaidd'.

Ein barn ni

Fel llawer o'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy, rydym yn croesawu'r newidiadau a wnaed mewn perthynas â'r amcanion pysgodfeydd. Nodwn y sylwadau y gallai fod rhywfaint o amwysedd yn yr hyn sy'n gyfystyr â “budd cenedlaethol”; serch hynny, byddem yn gobeithio y gallai'r amcan hwn fynd rywffaint o'r ffordd at sicrhau bod cymunedau arfordirol Cymru wrth wraidd polisiau pysgodfeydd.

Rydym hefyd yn croesawu cynnwys yr amcan newid yn yr hinsawdd. Rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog y bydd polisiau pysgodfeydd yn cyd-fynd â pholisiau newid hinsawdd ehangach a sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

Rydym yn parhau i bryderu am y diffyg dyletswydd ar awdurdodau polisi pysgodfeydd i bennu lefelau pysgota cynaliadwy. Nodwn sylwadau'r Gweinidog ar y mater hwn, ond heb os, byddai gwanhau'r ymrwymiad i Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy yn gam yn ôl. Yn ei llythyr mae'r Gweinidog yn honni y byddai dyletswydd rwymol gyfreithiol ar Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU adael y trafodaethau i bob pwrpas os na fyddai'r cenhedloedd eraill yn cyfaddawdu. Fodd bynnag, mae hyblygrwydd eisoes o dan gymal 33 o reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin mewn perthynas â'r ddyletswydd Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy yn ystod trafodaethau â gwledydd nad ydynt yn rhwym i'r un ddyletswydd. Dylai'r Gweinidog ddarparu esboniad pellach am absenoldeb dyletswydd ar Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy.

Yn ein hadroddiad blaenorol ar Fil 2017-19, daethom i'r casgliad y dylai Llywodraeth Cymru archwilio a ddylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru mewn Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd (Casgliad 9). Derbyniodd y Gweinidog y casgliad hwn, ond ni chynhwyswyd y mater hwn yn ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd. Dylai'r Gweinidog esbonio pam na ddigwyddodd hyn a sut bydd hyn yn cael ei ddatblygu.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog egluro sut bydd hi'n sicrhau y bydd yr amcan newid yn yr hinsawdd fel y'i nodwyd ym Mil 2019-21 yn cyd-fynd â pholisïau newid hinsawdd ehangach Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i archwilio ymhellach, gyda'r awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill, sut gellir cynnwys dyletswydd ar Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy ym Mil 2019-21. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor i amlinellu atebion sydd wedi eu hystyried, yn benodol a allai geiriad Erthygl 33 o reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin leddfu ei phryderon.

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i archwilio a ddylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru mewn Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol, i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd fel y'u nodwyd ym Mil 2019-21. Dylai'r Gweinidog egluro pam na chynhwyswyd y mater hwn yn nogfen ymgynghori Brexit a'n Moroedd.

3. Datganiad Pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd

35. Mae Cymal 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd baratoi a chyhoeddi Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd cyn pen 18 mis ar ôl pasio'r Ddeddf. Rhaid i'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd, ymhlith pethau eraill:

- nodi polisiau'r awdurdodau polisi pysgodfeydd ar gyfer cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd;
- cynnwys datganiad yn egluro sut mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn cynnig defnyddio 'cynlluniau datganiadau pysgodfeydd' er mwyn cyflawni, neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Mae cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn newydd ym Mil 2019-21; a
- cynnwys datganiad yn egluro sut cafodd yr amcanion pysgodfeydd eu dehongli a'u cymhwyso'n gymesur wrth lunio polisiau a chynigion.

36. Mae Cymal 3 a Rhan 1 o Atodlen 1 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd, neu ddiwygiadau i'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd adolygu'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd bob chwe blynedd o leiaf.

37. Mae Cymalau 6 i 9, a Rhan 3 o Atodlen 1, yn darparu ar gyfer cynlluniau rheoli pysgodfeydd. Rhaid i awdurdodau polisi pysgodfeydd baratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli pysgodfeydd (sydd wedi eu rhestru yn y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd). Rhaid i'r cynlluniau hyn, ymhlith pethau eraill, nodi:

- y stoc o bysgod môr, y math o bysgota a'r ardal ddaearyddol y mae'r cynllun yn ymwneud â hi; a
- dangosydd (neu ddangosyddion) i'w defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y cynllun.

38. Rhaid i bob cynllun gydymffurfio â gofynion ar lefelau pysgota cynaliadwy. Ar gyfer pob stoc o bysgod môr a gwmpesir gan y cynllun, rhaid i'r cynllun nodi a yw'r dystiolaeth wyddonol sydd ar gael yn ddigonol i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd allu asesu uchafswm cynnyrch cynaliadwy'r stoc.

39. Rhaid i awdurdodau polisi pysgodfeydd gymryd camau priodol i ymgynghori ag "unigolion â buddiant", gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, ar gynlluniau drafft a rhoi sylw i sylwadau a wneir wrth gwblhau'r cynlluniau hynny.

40. Mae Cymal 7 yn nodi'r gofynion ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli pysgodfeydd newydd, neu ddiwygio cynlluniau presennol, lle bu "newid perthnasol mewn amgylchiadau"²⁰ Wrth baratoi cynllun newydd, rhaid i'r awdurdod (neu'r awdurdodau) egluro sut a pham ei fod yn wahanol i'r cynnig sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd.

41. Mae Cymal 10 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol (sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru) arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd, pysgota a dyframaeth yn unol â'r polisiau cymwys sydd wedi eu cynnwys mewn Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd, datganiad pysgodfeydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu gynllun rheoli pysgodfeydd, "oni bai fod newid perthnasol mewn amgylchiadau yn nodi fel arall". Os yw awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol yn penderfynu peidio ag arfer ei swyddogaethau yn unol â'r polisiau cymwys, rhaid iddo baratoi a chyhoeddi datganiad yn disgrifio, ac yn egluro, ei benderfyniad. Mae'r gofyniad i baratoi a chyhoeddi datganiad yn un newydd ym Mil 2019-21.

42. Mae Cymal 11 yn rhoi gofyniad ar awdurdodau polisi pysgodfeydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad, unwaith bob tair blynedd, ar y graddau mae polisiau yn y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd wedi eu gweithredu a chyflawni'r amcanion pysgodfeydd, neu wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys i ba raddau mae polisiau o fewn cynlluniau rheoli pysgodfeydd wedi eu gweithredu ac wedi effeithio ar lefel y stociau o bysgod môr. Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno copi o'r adroddiad gerbron y Senedd. Mae'r ddarpariaeth hon yn newydd ym Mil 2019-21.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Cynlluniau rheoli pysgodfeydd

43. At ei gilydd, awgrymodd yr ymatebwyr fod y darpariaethau mewn perthynas â chynlluniau rheoli pysgodfeydd yn ddatblygiad cadarnhaol. Croesawodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth a'r Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar Cymru ('RSPB Cymru') y cysyniad o gynlluniau rheoli pysgodfeydd, ac roeddent yn awgrymu ei bod yn bosibl y gallent "helpu i gyfrannu at adfer y stociau pysgod sydd mewn perygl fwyaf". Er gwaethaf hyn, fe wnaethant godi

²⁰ O ran Cymalau 7 a 10, mae'r newidiadau mewn amgylchiadau sy'n gallu bod yn "berthnasol" yn cynnwys (yn benodol) newidiadau sy'n ymwneud â - rhwymedigaethau rhyngwladol y DU; pethau a wnaed (neu nas gwnaed) gan lywodraeth tiriogaeth y tu allan i'r DU sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol a dyfrol; tystiolaeth wyddonol sydd ar gael; neu'r dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud ag elfennau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol datblygu cynaliadwy.

pryder y byddai gan awdurdodau polisi pysgodfeydd, yn ôl y drafft, 'ddisgresiwn llwyr' o ran cynlluniau ar gyfer stociau.²¹

44. Esboniodd ClientEarth:

"...there's no provision in the Bill to require authorities to actually put in place a plan. All authorities have to do is say in a statement whether they'll introduce a plan for a particular stock or whether they won't, and the reasons for that. That's obviously really concerning from an environmental perspective..."²²

45. Codwyd pwynt tebyg gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol a oedd yn cwestiynu sut byddai awdurdodau polisi pysgodfeydd yn blaenoriaethu'r gwaith o baratoi cynlluniau rheoli pysgodfeydd. Meddai:

"...if there's the opportunity to pick and choose which management plans you're going to put into place and which ones you're not, there's a concern that some lower hanging fruit may be put in place before the ones that are most at risk."²³

46. Awgrymodd Dr Beukers-Stewart y byddai dull 'cymysg' o'r fath yn groes i'r amcan a nodwyd o ddarparu rheolaeth ragofalus sy'n seiliedig ar yr eco-system.²⁴

47. Galwodd MCS, ClientEarth ac RSPB am ofyniad ar awdurdodau polisi pysgodfeydd i gyhoeddi cynlluniau ar gyfer yr holl stociau a ecsbloetir yn fasnachol a stociau eraill sy'n is na lefelau cynaliadwy.²⁵ Yn ôl Cymdeithas Pysgotwyr Cymru²⁶ a Dr Beukers-Stewart, fodd bynnag, byddai'n anodd, os nad yn amhosibl, i gynlluniau gael eu paratoi ar gyfer yr holl stociau, o ystyried y diffyg data sydd ar gael ar gyfer rhai stociau.²⁷

48. Cododd nifer o ymatebwyr bryder nad yw Bil 2019-21 yn cynnwys digon o fanylion am gynnwys disgwylidig cynlluniau rheoli pysgodfeydd na'r amserlenni y mae'n rhaid iddynt gadw atynt o ran sicrhau adfer stoc. Wrth gymharu â dulliau a ddilynwyd mewn manau eraill, nododd ClientEarth:

²¹ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth ac RSPB](#)

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 298, 11 Mawrth 2020

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 299, 11 Mawrth 2020

²⁴ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan Dr Beukers-Stewart](#)

²⁵ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth ac RSPB](#)

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 179

²⁷ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan Dr Beukers-Stewart](#)

“...in the US legislation, there’s a lot of detail around what the plans need to contain for the most at-risk stocks...a management plan must deliver recovery of a particular stock within 10 years of the plan being implemented, which is a really good thing to see. Now, there isn’t any of that sort of detail in the Fisheries Bill.”²⁸

Pŵer i wyro oddi wrth bolisïau

49. Yn debyg i Fil 2017-19, mae Bil 2019-21 yn darparu pŵer i awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol wyro oddi wrth bolisïau sydd wedi eu cynnwys mewn Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd. Ategodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth a’r RSPB eu pryderon ynghylch ehangder y pŵer a sut byddai’n cael ei ddefnyddio. Fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod yr amgylchiadau lle gallai awdurdodau wyro oddi wrth bolisïau ‘lawer, llawer ehangach’²⁹ ym Mil 2019-21 nag a ragwelwyd o dan Fil 2017-19³⁰. Fe wnaethant esbonio:

“...the new Fisheries Bill introduces a definition of what constitutes a ‘relevant change in circumstances’, including ‘evidence relating to the social, economic or environmental elements of sustainable development’. This could mean that policies intended to recover fish stocks or contribute to the sustainable management of fisheries could be disregarded if they could have a negative impact on the profitability of the fishing industry.”³¹

50. Roedd yr Athro Barnes o’r farn bod y pŵer i awdurdodau wyro oddi wrth bolisïau yn “ddefnyddiol”, o ystyried natur ddeinamig pysgodfeydd. Credai fod y gofyniad ar awdurdodau i baratoi a chyhoeddi eu rhesymau dros wyro oddi wrth bolisïau yn fesur wrth gefn pwysig a fyddai’n helpu i atal unrhyw gamddefnydd posibl o’r pŵer.³²

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 314-316, 11 Mawrth 2020

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 291, 11 Mawrth 2020

³⁰ Roedd Bil Pysgodfeydd 2017-19 yn darparu modd i awdurdodau cenedlaethol perthnasol arfer eu swyddogaethau yn unol â pholisïau mewn Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd oni bai fod “ystyriaethau perthnasol” yn pennu fel arall. Ni ddiffiniwyd y term, “ystyriaethau perthnasol”. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy’n cyd-fynd â Bil 2017-19, gallai ystyriaethau o’r fath gynnwys “newidiadau mewn cyngor gwyddonol, safonau rhyngwladol newydd neu ddigwyddiadau trychinebus sy’n cael effaith ar reoli pysgodfeydd neu’r amgylchedd morol”.

³¹ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth ac RSPB](#)

³² Cofnod y Trafodion, paragraffau 76-77, 11 Mawrth 2020

Tystiolaeth gan y Gweinidog

51. Wrth roi sylwadau ar bwrpas ac effaith arfaethedig y darpariaethau mewn perthynas â chynlluniau rheoli pysgodfeydd, dywedodd y Gweinidog:

“The fisheries management plan approach will provide us with the flexibility to implement management measures on a stock by stock, or fishery by fishery, basis, allowing for a holistic view of our fisheries and their link to the wider environment.”

52. Esboniodd y Gweinidog mai mater i bob gweinyddiaeth pysgodfeydd fyddai penderfynu pa gynlluniau rheoli pysgodfeydd maent yn bwriadu eu paratoi. Dywedodd ei bod yn ‘rhy gynnar i ddweud’ pa stociau a fydd yn destun cynllun, ond rhoddodd sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gwyddonwyr a llywodraethau eraill i benderfynu pa gynlluniau i’w rhoi ar waith.

53. Dywedodd y Gweinidog, er bod gan awdurdodau polisi pysgodfeydd y pŵer i wroddi wrth y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd, y byddai hyn yn ‘eithriadol’. Ni fyddai hynny’n digwydd ar chwarae bach, ac, wrth gwrs, byddai modd ei herio yn y llys. Honnodd y byddai dileu’r pŵer hwn yn arwain at y perygl o orfodi’r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd i gael ei ddrafftio ar lefel hynod eang ac uchel, er mwyn cadw ein cymwyseddau datganoledig a’r hyblygrwydd sy’n ofynnol i reoli ein pysgodfeydd yn gynaliadwy. Yn ôl y Gweinidog, effaith hyn fyddai gwneud y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd yn ‘ddiystyr’.

Ein barn ni

Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i geisio gwelliant i Fil 2017-19 i gynnwys gofyniad i’r awdurdodau polisi pysgodfeydd adrodd i’r ddeddfwrfa berthnasol ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu polisiâu ac o ran cyflawni’r amcanion pysgodfeydd (Casgliad 10). Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein casgliad ac rydym yn croesawu cynnwys y gofyniad adrodd yng Nghymal 11.

Serch hynny, mae rhai pryderon angen sylw o hyd. Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru gyflawni’r ymrwymiadau a wnaeth mewn ymateb i’n hadroddiad blaenorol mewn perthynas â’r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn pryderu y dylai’r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd gynnwys cerrig milltir a thargedau uchelgeisiol.

Rydym yn croesawu cynnwys gofyniad i gyhoeddi datganiad ar resymau dros wyro oddi wrth Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd. Bydd hyn yn gwella tryloywder ac atebolrwydd.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn gyson wrth alw am gyfle i randdeiliaid Cymru gyfrannu at lunio cynnwys Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd Cymru. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu i lywio a siapio cynnwys y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd. Byddem yn ddiolchgar am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar y mater hwn.

Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gwyddonwyr a llywodraethau eraill i ddatblygu gwaith ynghylch Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Rydym yn ceisio sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau cynaliadwyedd yr holl stociau yn nyfroedd Cymru, nid dim ond y rhai sydd â buddiannau pysgota byw yng Nghymru. Ymhellach, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn nodi camau gweithredu ac amserlenni ar gyfer adfer stociau, lle bo hynny'n briodol.

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar effaith Brexit ar Bysgodfeydd Cymru, dywedodd y Gweinidog y byddai hi'n parhau i weithio gyda'r Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Môr ('ICES') i asesu lefelau stoc. Byddem yn ddiolchgar am ddiweddariad gan y Gweinidog am y cytundebau a ddatblygwyd rhwng y DU ac ICES ar gyfer asesiadau pysgodfeydd yn y dyfodol ac i ba raddau y bydd ICES yn llywio'r wyddoniaeth o fewn Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd. Dylai'r Gweinidog nodi i ba raddau mae'n rhagweld y bydd angen i Lywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil newydd i lywio datblygiad Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni'r ymrwymadau a wnaeth mewn ymateb i'n hadroddiad blaenorol mewn perthynas â'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd. Yn benodol, roedd y Pwyllgor yn teimlo y dylai'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd gynnwys cerrig milltir a thargedau uchelgeisiol.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y rhaglen digwyddiadau ymgysylltu i lywio a siapio cynnwys y Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog roi sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru, drwy'r Datganiad Pysgodfeydd ar y Cyd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd, yn sicrhau cynaliadwyedd yr holl stociau yn nyfroedd Cymru, nid dim ond y rhai sydd â buddiannau pysgota byw yng Nghymru.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog roi sicrwydd y bydd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn nodi camau gweithredu ac amserlenni ar gyfer adfer stociau, lle mae stociau yn is na lefelau cynaliadwy.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog nodi i ba raddau mae'n rhagweld y gall Llywodraeth Cymru ddibynnu ar gyrff presennol i ddarparu data gwyddonol i lywio Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ac a fydd angen i Lywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil newydd ac ychwanegol.

4. Mynediad at bysgodfeydd Prydain a rheoleiddio cychod pysgota tramor

54. Mae Cymalau 12 a 13, ac Atodlen 2, yn darparu ar gyfer mynediad at bysgodfeydd Prydain gan gychod pysgota Prydeinig a thramor. Mae Atodlen 2 (a gyflwynwyd gan Cymal 13) yn cynnwys diwygiadau i is-ddeddfwriaeth i sicrhau bod llongau tramor yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chychod pysgota Prydain wrth bysgota yn nyfroedd y DU. Mae Cymalau 14 i 18, ac Atodlen 3, yn darparu ar gyfer trwyddedu cychod pysgota. Mae Cymalau 19 i 22, ac Atodlen 4, yn darparu ar gyfer troseddau mynediad a thrwyddedu.

55. Mae'r darpariaethau uchod fwy neu lai yr un fath â'r rhai sydd wedi eu cynnwys ym Mil 2017-19. Fodd bynnag, mae Atodlen 2 (rheoleiddio cychod pysgota tramor) yn newydd ym Mil 2019-21.

Ein hadroddiad cyntaf

56. Yn ein hadroddiad cyntaf, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am y cynigion ar gyfer Awdurdod Cyhoeddi Sengl, ac ar ofynion trwydded yn y dyfodol mewn perthynas â dyfroedd Cymru (Casgliad 13).

57. Mewn ymateb, esboniodd y Gweinidog y byddai'r Awdurdod Cyhoeddi Sengl yn cael ei gynnal gan Sefydliad Rheoli Morol ac y byddai'n gweithredu ar ran yr holl awdurdodau polisi pysgodfeydd i ddyroddi trwyddedau i longau pysgota tramor. Ychwanegodd:

“Er y bydd y gwaith ymarferol o ddyroddi trwyddedau yn cael ei wneud gan yr Awdurdod Dyroddi Sengl... mater i Weinidogion Cymru fydd

gosod amodau trwydded priodol a chymesur mewn perthynas â Chymru a pharth Cymru.”³³

58. Yn dilyn hynny, dywedodd wrthym bod swyddogion yn cydweithio ag eraill i ddatblygu gofynion trwyddedu ychwanegol y gellid ystyried bod eu hangen mewn perthynas â dyfroedd Cymru.³⁴

Tystiolaeth gan randdeiliaid

59. Wrth wneud sylwadau ar y darpariaethau mewn perthynas â mynediad at ddyfroedd Prydain, honnodd Griffin Carpenter fod rhai dadleuon sylweddol sydd heb eu codi. Cyfeiriodd at ‘gonsensws cynyddol’ y byddai llongau tramor yn parhau i weithredu yn nyfroedd Cymru, er bod cyfyngiadau posibl ar fynediad at ddyfroedd glannau Cymru.³⁵

60. Esboniodd Griffin Carpenter hefyd y byddai'r trefniadau cyfredol yn aros yr un fath mewn perthynas â llongau sydd wedi eu cofrestru yn y DU ac sy'n eiddo i rai o dramor. Dywedodd:

“This is, in Wales, the Spanish-owned fleet that fishes the vast, vast majority of Welsh quota at the moment. If you talk about access to UK waters, it gets more complicated with those vessels, and what the Secretary of State said is they're not looking at changing that. There will still be foreign ownership.”³⁶

61. Yn yr un modd, esboniodd yr Athro Barnes y bydd llongau sydd wedi eu cofrestru yn y DU ac sy'n eiddo i rai o dramor yn parhau i gael eu trin fel cychod pysgota sydd wedi eu cofrestru yn y DU, ac y byddant yn parhau i gael mynediad at gwotâu.³⁷

62. Pwysleisiodd ClientEarth yr angen i sicrhau y byddai'n ofynnol i gychod tramor sy'n cael mynediad at ddyfroedd Prydain gydymffurfio â'r un safonau

³³ <https://busnes.senedd.cymru/documents/s86861/Paper%20to%20Note%20-%20Correspondence%20from%20the%20Minister%20for%20Environment%20Energy%20and%20Rural%20Affairs%20-%2027%20Marc.pdf>

³⁴ <https://busnes.senedd.cymru/documents/s87630/Papur%20iw%20nodi%20-%20Gohebiaeth%20rhwng%20y%20Cadeirydd%20a%20Gweinidog%20yr%20Amgylchedd%20Ynni%20a%20Materion%20Gwledig%20-%2005.pdf>

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 11 Mawrth 2020

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 140-141, 11 Mawrth 2020

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 138, 11 Mawrth 2020

amgylcheddol â llongau y DU o leiaf. Awgrymodd y gellid cyflawni hyn drwy bennu amodau trwyddedau.³⁸

63. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ategu pwysigrwydd monitro a gorfodi effeithiol. Yn ôl y Gymdeithas Cadwraeth Forol, mae monitro, rheoli a gorfodi yn faes hanfodol ond diffygiol, yn gyson, o ran rheoli pysgodfeydd.³⁹ Galwodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth a'r RSPB am ymrwymiad i gyflwyno camerâu teledu cylch cyfyng ar bob cwch sy'n pysgota yn nyfroedd y DU i gofnodi'r hyn sy'n cael ei ddal, gan sicrhau dogfennaeth lawn y gellir ei dilysu o ddalfeydd a monitro a gorfodi cadarn.⁴⁰

64. Dywedodd Griffin Carpenter fod y darpariaethau monitro a gorfodi yn 'ddigonol' i'r graddau eu bod yn 'galluogi'. Fodd bynnag, cododd bryder ynghylch cost gorfodi effeithiol. Ychwanegodd:

"...you need to figure out how much you're willing to spend on fisheries to ensure enforcement. If you're spending more, then the landed value of the fish—. At some point, someone needs to ask, 'What's the public benefit here? Beth yw'r budd cenedlaethol os ydym yn colli arian ar y diwydiant hwn? 'What's the national benefit if we're losing money on this industry?' There are very valid reasons for that—cultural, political, vulnerable communities—but these are the questions you need to answer."⁴¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

65. Esboniodd y Gweinidog y bydd unrhyw drwydded a roddir mewn perthynas â dyfroedd Cymru yn cael ei hawdurdodi yn gyntaf gan swyddogion Llywodraeth Cymru gan ystyried mynediad blaenorol gan y llong ac arfer hanesyddol. Dywedodd y bydd pob gweinyddiaeth pysgodfeydd yn darparu amodau generig ac ardal-benodol, fel cyfyngiad arbennig os oes angen.

66. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor, y bydd llongau tramor yn ddarostyngedig i'r un amodau trwydded â llongau'r DU sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru fel lleiafswm.

67. Cadarnhaodd y Gweinidog nad yw Bil 2019-21 yn atal llongau dan berchnogaeth dramor rhag cofrestru fel rhai o Brydain. Pwysleisiodd y byddai

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 345, 11 Mawrth 2020

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 329, 11 Mawrth 2020

⁴⁰ [Cyflwyniad ysgrifenedig gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, ClientEarth ac RSPB](#)

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 11 Mawrth 2020

unrhyw long sydd wedi ei chofrestru fel llong yn y DU yn ddarostyngedig i'r polisiau sy'n ategu'r amcan budd cenedlaethol.

68. Esboniodd y Gweinidog fod gan Weinidogion Cymru'r pŵer ar hyn o bryd i'w gwneud yn ofynnol i deledu cylch cyfyng a monitro electronig o bell fod yn un o amodau'r drwydded, er na chafodd ei ddefnyddio hyd yma. Esboniodd hefyd bod amrywiaeth o offer gorfodi eisoes yn cael eu defnyddio gan weinyddiaethau'r DU, gan gynnwys Systemau Monitro Llongau a Systemau Cofnodi Electronig. Ychwanegodd:

“...we will look to use the powers within licensing to enhance the reporting by non-UK vessels operating in our waters...These powers will extend to all non-UK vessels and not just those which are over 12 metres. We will also use licence conditions to ensure non-UK vessels adhere to UK domestic requirements...”

Ein barn ni

Nodwn y pryderon a fynegwyd gan sawl cyfrannwr ynghylch diffyg monitro a gorfodi rheoliadau yn effeithiol ar hyn o bryd. O ganlyniad i Fil 2019-21, bydd gan Lywodraeth Cymru ragor o gyfrifoldebau dros reoleiddio pysgodfeydd nag erioed o'r blaen. Credwn fod hyn yn rhoi cyfle i sicrhau bod y drefn orfodi yng Nghymru yn gadarn ac yn gymesur.

Y llynedd, ymgynghorodd y Gweinidog ar Systemau Monitro Llongau ar gyfer cychod pysgota yng Nghymru. Dywedodd mai'r dewis a ffafrir yw cyflwyno offeryn statudol yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn orfodol i holl gychod pysgota Prydain o dan 12 metr o hyd sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru gario system monitro cychod gweithredol ar fwrdd y llong. Nodir yn y ddogfen grynoded o ganlyniadau bod disgwyl i'r dyddiad gweithredu fod tua diwedd 2019. Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor hwn i roi diweddariad ar y mater hwn.

Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi gwneud Systemau Monitro Llongau a theledu cylch cyfyng ar fwrdd y llong yn ofynion trwydded. Fodd bynnag, nodwn y sylwadau a wnaed mewn perthynas â chostau posibl gofynion o'r fath. Dylai Llywodraeth Cymru asesu goblygiadau ariannol mesurau o'r fath a dylent gyhoeddi'r canlyniadau.

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlenni ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â Systemau Monitro

Llongau ar gyfer holl gychod pysgota Prydain o dan 12 metr o hyd sy'n gweithredu yn nyfroedd Cymru.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru asesu goblygiadau ariannol gwneud teledu cylch cyfyng yn ofyniad trwydded, a dylai gyhoeddi canlyniadau'r asesiad hwnnw.

5. Cyfleoedd pysgota

Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota

69. Mae cymal 23 yn darparu mai dim ond er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol i bennu cyfleoedd pysgota yn y DU y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu cyfanswm cyfleoedd pysgota'r DU o ran uchafswm y pysgod môr (cwota dal pysgod) a'r nifer mwyaf o ddyddiau y caiff cychod pysgota o Brydain eu treulio ar y môr (cwota ymdrech).

70. Mae Cymal 24 yn darparu mai'r unig ffordd o wneud penderfyniad am gyfleoedd pysgota (cwota dal a chwota ymdrech) o dan Cymal 23 yw ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban, Adran Gogledd Iwerddon a'r Sefydliad Rheoli Morol.

71. Cafodd cymalau tebyg eu cynnwys ym Mil 2017-19.

72. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen caniatâd ar gyfer y darpariaethau hyn. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly mae angen cydsyniad. Nid yw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnig manylion pellach am safbwynt Llywodraeth Cymru. Mewn cyferbyniad, roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-19 yn dweud nad oedd Llywodraeth Cymru "yn fodlon ar ddrafftio [y cymal cyfatebol ym Mil 2017-19]". Roedd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil 2017-19 yn ymhelaethu ar bryderon Llywodraeth Cymru:

"...nid yw gweithredu cytundebau rhyngwladol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli yn fater sydd wedi ei gadw'n ôl, ac mae o fewn Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cadarnhawyd hynny gan y Goruchaf Lys yn Reference of the UK Withdrawal from the EU (Legal Continuity) (Scotland) Bill [2018] UKSC 64. Gan fod y term 'International Obligations' (a ddefnyddir yn y Bil) yn eang ac oherwydd y gallai fod yn cwmpasu gweithredu cytundeb o'r fath, mae'r Cymal yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol..."

73. Yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil 2017-19, nododd y Gweinidog yn glir oni bai bod y mater wedi ei ddatrys, na fyddai hi'n argymhell bod y Senedd yn rhoi caniatâd i'r holl ddarpariaethau perthnasol ym Mil 2019-21.

Dosbarthu cyfleoedd pysgota

74. Mae cymal 25 yn diwygio'r hyn a fydd yn ddarpariaethau yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, sy'n nodi meini prawf ar gyfer dosbarthu cyfleoedd pysgota. Mae Erthygl 17 o Reoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau dddosbarthu cyfleoedd pysgota yn ddomestig yn unol â meini prawf tryloyw a gwrthrychol, gan gynnwys rhai o natur amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

75. Bydd Cymal 25, mewn gwirionedd, yn sicrhau bod gofynion presennol yn y DU yn cael eu cynnal ac yn cael eu cymhwyso i'r awdurdodau polisi Pysgodfeydd (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) a'r Sefydliad Rheoli Morol.

76. Ym Mil 2017-19, dim ond i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Sefydliad Rheoli Morol roedd y gofyniad yn berthnasol.

Gwerthu cyfleoedd pysgota Cymru am flwyddyn galendr

77. Mae Atodlen 5 (a gyflwynwyd gan Cymal 27) yn darparu modd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer gwerthu hawliau i ddefnyddio cyfleoedd pysgota Cymru (cwota dal a chwota ymdrech) am flwyddyn galendr. Mae'r pŵer hwn yn newydd ym Mil 2019-21.

78. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r sawl sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gwneud rheoliadau. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Ein hadroddiad cyntaf

79. Yn ein hadroddiad cyntaf, daethom i'r casgliad bod Bil 2017-19 yn gyfle a gollwyd i ail-gydbwyo annhegwch sylfaenol wrth ddyrannu cwota'r DU, a fyddai, pe na newidir hynny, yn arwain at fanteision prin i bysgodfeydd Cymru ar ôl Brexit (Casgliad 16). Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog wrthym nad Bil 2019-21 oedd y lle priodol i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd yng nghyfran cwotâu Cymru ac nad oedd angen darpariaethau deddfwriaethol i gyflawni hyn.

80. Fe wnaethom nodi'r hyn roeddem o'r farn ei fod yn ddull teg a chynaliadwy o ddyrannu cwota'r DU yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys diwygio Erthygl 17 ac

adolygu'r Concordat Pysgodfeydd (Casgliad 17). Fe wnaethom hefyd alw am ddyrannu unrhyw gwota sy'n deillio o Brexit yn unol â meini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, yn hytrach na chofnodion dal hanesyddol (Casgliad 18).

81. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog nad yw Erthygl 17 yn gofyn am ddiwygiad i'r DU symud oddi wrth ddefnyddio cofnodion dal hanesyddol fel y prif resymeg dros ddyrannu. Dywedodd wrthym fod trafodaethau ag awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill y DU eisoes wedi cychwyn gyda'r bwriad o fynd i'r afael ag anghydbwysedd hanesyddol yng nghyfran cwota Cymru.

82. Yn olaf, fe wnaethom alw am welliant i Fil 2017-19 i fynd i'r afael â phryderon ynghylch faint o bŵer sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota (Casgliad 19). Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd hi wedi gallu dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar welliannau i ddarpariaethau mewn perthynas â chyfleoedd pysgota. Yn lle hynny, roedd y Gweinidog wedi cytuno y byddai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y bwriedir defnyddio pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol a phrosesau ymgynghori cryfach. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo ar sefydlu mecanwaith cytunwyd arno ar gyfer datrys anghydfodau.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Dosbarthiad cyfleoedd pysgota

83. Nododd yr Athro Barnes fod disgwyl i'r trefniadau cyfredol ar gyfer dyrannu cwota rhwng awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU, h.y. trwy'r Concordat Pysgodfeydd, barhau ar ôl Brexit. Ychwanegodd:

"I would like to have seen more in the Bill dealing with the principles of allocation and how that's taken forward, but I suspect, in practice, it's a very politicised issue and there would be a reluctance to actually set out in law how that has to happen."⁴²

84. Dywedodd Dr Beukers-Stewart, er gwaethaf safbwynt Llywodraeth y DU y dylai rhannu cyfleoedd pysgota rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol fod yn seiliedig ar yr egwyddor o gysylltiad parthau, nad yw'r Bil yn

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 11 Mawrth 2020

sôn am ddefnyddio'r dull hwn wrth bennu cytundebau rhwng y cenhedloedd datganoledig (yn hytrach, ymddengys ei fod yn glynu wrth Concordat 2012).⁴³

85. Roedd yr ymatebwyr yn pwysleisio'r angen i symud i ffwrdd o'r defnydd parhaus o gofnodion dal hanesyddol fel sail ar gyfer dyrannu cwota, gan symud i system decach yn seiliedig ar feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Fe wnaethant egluro, er y byddai Erthygl 17 (yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, ac fel y'i diwygiwyd gan Fil 2019-21) yn galluogi awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU i ddyrannu cwota yn unol â meini prawf amgylcheddol a chymdeithasol, ni fyddai gofyniad iddynt wneud hynny. Dywedodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol:

“Article 17 has been in place for nearly 10 years now and it has resulted in very little change to the way quota is distributed within the UK, and the UK is responsible for how we distribute our own quota—that’s completely down to ourselves—and we haven’t done that. We’ve had the opportunity to do it for 10 years and it’s not been done.”⁴⁴

86. Awgrymodd ClientEarth, oni bai ei bod yn ofynnol i awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU ddyrannu cwota yn unol â meini prawf amgylcheddol a chymdeithasol, y byddant yn parhau i ddefnyddio cofnodion dal hanesyddol.⁴⁵

87. Credai Griffin Carpenter y dylai Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol fod yn “fwy rhagnodol” wrth nodi meini prawf amgylcheddol a chymdeithasol a fydd yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer dyrannu cwota yng Nghymru.⁴⁶

Gwerthu cyfleoedd pysgota Cymru am flwyddyn galendr

88. Dywedodd sawl ymatebydd fod y pwerau i werthu cwota Cymru yn rhagdybio y byddai Cymru yn ennill cwota newydd ar ôl Brexit ond nad oedd y capasiti ar gael i wneud hynny ar hyn o bryd. Dywedodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru:

“...if, for example, Wales wasn’t able to meet the allocation it has been provided, the surplus there could be leased out in-year, while in the meantime we build the capacity of our fleets to realise those opportunities going forward, and along with that develop the

⁴³ Cyflwyniad ysgrifenedig gan Dr Beukers-Stewart

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 355, 11 Mawrth 2020

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 357, 11 Mawrth 2020

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 133, 11 Mawrth 2020

infrastructure then to make sure that we maximise the economic benefits to Wales.”⁴⁷

89. Eglurodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru⁴⁸ a Griffin Carpenter⁴⁹ y gallai'r pwerau fod yn ddefnyddiol i achub y blaen ar unrhyw her o dan Erthygl 62 ar ddefnyddio adnoddau byw yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr. Mae Erthygl 62 yn darparu ar gyfer Gwladwriaeth arfordirol “nad oes ganddi'r gallu i gynaeafu'r daliad cyfan a ganiateir...i roi mynediad i Wladwriaethau eraill i'r daliad a ganiateir sydd dros ben”.

90. Cyfeiriodd yr Athro Barnes at bryder a godwyd yn ystod y gwaith craffu ar Fil 2019-21 yn Nhŷ'r Arglwyddi mai'r cyfan fyddai'r pwerau fyddai ffordd o gynhyrchu refeniw mewn gwirionedd ac y byddent yn gadael pysgodfeydd ar raddfa fach mewn sefyllfa fregus. Ychwanegodd y canlynol:

“...if there is a sale or a tender, the smaller independents are probably less able to pay the premiums that the larger concerns are able to pay. So there is concern that, actually, it might end up consolidating the quota in other hands.”⁵⁰

91. Fodd bynnag, dywedodd yr Athro Barnes wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd nad cynhyrchu refeniw oedd prif bwrpas y darpariaethau, ond ei fod yn un ffactor ymhlith llawer o ffactorau eraill y gellid eu hystyried. Ychwanegodd y gellid defnyddio'r darpariaethau i annog arferion sy'n ecogyfeillgar neu i feithrin sectorau pysgodfeydd penodol.⁵¹

Tystiolaeth gan y Gweinidog

92. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad gan y Gweinidog ar ddatblygiad Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Pysgodfeydd y DU. Dywedodd fod drafftio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y gweill, er y bu oedi dros y flwyddyn ddiwethaf o ran bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Roedd yn disgwyl y byddai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn barod erbyn diwedd y cyfnod pontio.

93. Honnodd y Gweinidog fod y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymal 23 yn parhau i fod yn fater 'llinell goch' oherwydd ei bod yn hollbwysig bod arfer y

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 207, 11 Mawrth 2020

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 206, 11 Mawrth 2020

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 11 Mawrth 2020

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 11 Mawrth 2020

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 11 Mawrth 2020

pŵer hwn, yn y dyfodol, yn cael ei wneud mewn modd sy'n parchu'r setliad datganoli. Ychwanegodd:

“Achieving the necessary level of assurance in the MoU in this matter is a priority for me, and my officials are working collaboratively on the development of the MoU to ensure this is achieved. I will be looking to the content of the Agriculture Bill World Trade Organisation Agreement to steer our development of the MoU on clause 23 of the Fisheries Bill, to ensure the arrangements agreed are robust and effective.”

94. Pan ofynnwyd iddi egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn ceisio pwerau mewn perthynas â gwerthu cwota Cymru, a sut byddai'r pwerau hynny'n cael eu defnyddio, esboniodd y Gweinidog y byddai dyrannu cyfleoedd pysgota yn 'rhan allweddol' o'n Polisi Pysgodfeydd yn y Dyfodol. O'r herwydd, roedd yn ddoeth cynnwys pŵer yn y Bil fel na fyddai ein dewisiadau o ran datblygu polisi yn cael eu cwtogi.

95. Esboniodd y Gweinidog y gallai'r pŵer gynhyrchu refeniw y gellid ei ail-fuddsoddi yn niwydiant pysgota Cymru i'w helpu i addasu a manteisio ar gyfleoedd pysgota ychwanegol yn y dyfodol. Er nad oedd bwriad i gyflwyno cynllun ar hyn o bryd, byddai unrhyw gynnig yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad.

96. Nid oedd y Gweinidog yn rhagweld y byddai unrhyw gynllun o'r fath yn cael ei ddefnyddio i werthu cwota Cymru i longau tramor oni bai bod tystiolaeth glir o'r budd sy'n deillio yng nghymunedau arfordirol Cymru. Dywedodd hefyd ei bod yn disgwyl i'r pŵer fod yn berthnasol i gwota ychwanegol yn unig, er y byddai hyn yn destun datblygu polisi ac ymgynghori ar unrhyw gynnig.

Ein barn ni

Mae Cymal 23 yn darparu pŵer eang i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cwotâu'r DU, a allai, fel y'u drafftwyd, fod yn berthnasol i stociau pysgod sydd i'w cael o fewn dyfroedd un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn unig.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i fynd i'r afael â Chymal 23 wrthi'n cael ei ddrafftio o hyd, ac na fydd ar gael cyn y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog wedi dweud bod hon yn 'llinell goch'. Nid yw'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n briodol ceisio caniatâd deddfwriaethol nes gall y Gweinidog roi gwybod i'r Senedd a aethpwyd i'r afael â'i phryderon.

Daeth y Pwyllgor hwn i'r casgliad yn flaenorol bod Bil 2017-19 yn gyfle a gollwyd i ailfantoli'r annhegwch sylfaenol wrth ddyrannu cwota'r DU. Ein barn ni yw nad aethpwyd i'r afael â hyn o hyd ac mae'n parhau i fod yn wir am Fil 2019-21.

Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai'r Concordat Pysgodfeydd gael ei adolygu i adlewyrchu pwyslais cynyddol ar feini prawf amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd wrth ddyrannu cwota i'r gwledydd sy'n rhan o'r DU. Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio'n llawn ar unrhyw adolygiad o'r Concordat Pysgodfeydd yn y dyfodol i sicrhau cynnydd yn y cwota a ddyrennir i Gymru.

Rydym yn croesawu'r darpariaethau newydd ar gyfer gwerthu hawliau pysgota. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ar y mater hwn yn ei adroddiad cyntaf ac rydym o'r farn y gallai gynorthwyo i ddatblygu pysgodfeydd yng Nghymru. Rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd unrhyw elw o werthiannau o'r fath yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo cymunedau arfordirol a'r amgylchedd morol. Ymhellach, dylid ymgynghori'n helaeth i lywio datblygiad unrhyw gynllun perthnasol.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog esbonio i'r Senedd a aethpwyd i'r afael â'i phryderon mewn perthynas â Chymal 23, sy'n gyfystyr â 'llinell goch' iddi.

Argymhelliad 16. Ni ddylai'r Gweinidog gyflwyno'r cynnig i roi caniatâd i'r darpariaethau ym Mil 2019-21 nes bod Aelodau'r Senedd wedi gallu trafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â Chymal 23.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill mewn perthynas ag adolygiad o'r Concordat pysgodfeydd.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd unrhyw elw o werthu hawliau pysgota yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo cymunedau arfordirol a'r amgylchedd morol. Dylid ymgynghori'n helaeth i lywio datblygiad unrhyw gynllun perthnasol.

6. Pwerau cymorth ariannol

97. Yn ystod aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, darparwyd cyllid ar gyfer pysgodfeydd o dan Gronfa Forol a Physgodfeydd Ewrop.

98. Mae Atodlen 6 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi cymorth ariannol, neu i drefnu bod cymorth o'r fath yn cael ei roi, i unrhyw berson at ddibenion penodol. Bydd y pwerau'n caniatáu sefydlu cynlluniau grant a

chynlluniau benthyca i Gymru ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, pan ddaw cyllid Cronfa Forol a Physgodfeydd Ewrop i ben. Mae rheoliadau i sefydlu cynlluniau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Ein hadroddiad cyntaf

99. Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Bil 2017-19 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol i Gymru yn y dyfodol (Casgliad 21).

100. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein casgliad gan ddweud bod trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch gwelliant posibl yn mynd rhagddynt.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

101. Nododd Griffin Carpenter y byddai'r pwerau cymorth ariannol yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cyllid at ystod ehangach o ddibenion nag o dan Cronfa Forol a Physgodfeydd Ewrop. Roedd yn croesawu'r ffaith bod cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant wedi ei gynnwys, gan awgrymu y gallai hyn helpu i gefnogi newydd-ddyfodiaid ifanc ac, yn ei dro, roi bywyd newydd i'r diwydiant pysgota yng Nghymru o bosibl.⁵²

102. Dywedodd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru fod y newidiadau a wnaed i'r pwerau cymorth ariannol ers Bil 2017-19 yn gwella cwmpas y pwerau. Er gwaethaf hyn, roedd yn cwestiynu a oedd y pwerau'n ddigon eang i gefnogi datblygiadau technolegol i wella pysgota dethol. Nododd:

“...in Europe, obviously, the successor to EMFF is already underway, and it will have that suite of proposals there where their fleet is being helped to adapt towards selective fishing techniques and so on. That's going to be an ongoing challenge.”⁵³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

103. Esboniodd y Gweinidog fod y pwerau cymorth ariannol wedi cael eu hehangu i gyd-fynd ag ehangder yr hyn a gyllidir o dan Gronfa Forwrol a Physgodfeydd Ewrop (EMFF).

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 11 Mawrth 2020

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 11 Mawrth 2020

104. Pan ofynnwyd iddi egluro'r amserlen y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag ati i ddatblygu unrhyw gynllun cymorth ariannol newydd, dywedodd y Gweinidog:

“The UK Environment Secretary has committed that the Government will put in place new, domestic, long-term arrangements to support the UK’s fishing industry and marine environment, through the creation of four new schemes comparable to EMFF to deliver funding for each nation...My officials are working with UK Government and the other devolved administrations to identify scope to maximise the economic growth of the UK’s marine sectors. This work will guide policy in how best to support the sustainable growth of the different industry sectors in a strategic and streamlined way.

The devolved administrations will lead on their schemes and discussions will continue. Welsh Government will continue to develop proposals taking into account the effects of Brexit and COVID-19. These will determine the timeline for consultation on the new scheme.”

105. Esboniodd y Gweinidog y gallai cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gynigion ar gyfer unrhyw gynllun cymorth ariannol yn y dyfodol achosi anfantis bosibl i Gymru a physgotwyr Cymru - er enghraifft, pe bai angen i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau mewn argyfwng. Ychwanegodd:

“The current COVID-19 pandemic has reinforced this and clearly shown the need for a level of flexibility to enable the government to act in an emergency. It remains the position, it would be a last resort to introduce a scheme without full and thorough consultation with those people who would benefit/be affected by it. Welsh Government policy is to consult before making all legislation and in all scenarios, the regulations made under schedule 6 would be subject to the affirmative procedure in the Senedd.”

Ein barn ni

Daeth y Pwyllgor hwn i'r casgliad yn flaenorol y dylai'r amcanion pysgodfeydd fod yn sail i gynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor yn disgwyl i hyn gael ei archwilio drwy ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd. Ni ddigwyddodd hynny. Pwysleisiwn ein cred y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo y dylai'r amcanion pysgodfeydd fod yn sail i'r cynlluniau cymorth ariannol.

Nodwn sylwadau'r Gweinidog fod y gweinyddiaethau datganoledig yn arwain y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau. Byddem yn ddiolchgar am yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pryd gallwn ni ddisgwyl i gynigion gael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghori.

Yn olaf, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai cychod newydd a brynir gan ddefnyddio arian o gynlluniau cymorth ariannol fod â thechnolegau i wella cynaliadwyedd a gwella monitro (gan gynnwys teledu cylch cyfyng a dyfeisiau lleihau dalfeydd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y bydd y cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer Cymru sy'n deillio o Fil 2019-21 yn cael eu hategu gan yr amcanion pysgodfeydd.

Argymhelliad 20. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei chynlluniau cymorth ariannol, gan gynnwys pryd mae hi'n disgwyl i gynigion gael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghori.

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y dylai cychod newydd a brynir gan ddefnyddio arian o gynlluniau cymorth ariannol fod â thechnolegau i wella cynaliadwyedd a gwella monitro (gan gynnwys teledu cylch cyfyng a dyfeisiau lleihau dalfeydd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny).

7. Pennu ffioedd: pwerau awdurdodau datganoledig

106. Mae Atodlen 7 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i orfodi taliadau mewn perthynas â swyddogaethau morol perthnasol gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â chwota pysgota, gan sicrhau bod gweithgareddau pysgota yn cael eu cynnal yn gyfreithlon, cofrestru prynwyr a gwerthwyr a thystysgrifau dal. Mae'r darpariaethau hyn yn newydd ym Mil 2019-21.

107. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gwneud rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

108. Darperir pwerau cyfwerth ar gyfer y Sefydliad Rheoli Morol a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

109. Cododd Cymdeithas Pysgotwyr Cymru bryder ynghylch y pŵer i godi ffioedd. Awgrymodd nad oedd rhai busnesau yn niwydiant pysgota Cymru “mewn cyflwr digon iach i wrthsefyll costau a ffioedd sydd ar hyn o bryd yn anhysbys”.⁵⁴

110. Credai'r Athro Barnes fod y pŵer yn ychwanegiad pwysig at Fil 2019-21 ac y gellid ei ddefnyddio i gynhyrchu refeniw i helpu i ail-fuddsoddi yn fflyd Cymru. Er gwaethaf hyn, awgrymodd y gallai'r pŵer arwain at 'heriau' pe bai'n cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd ledled y DU. Dywedodd:

“...that then might have impacts upon, for example, the competitiveness between the different sectors or the different fleets within Wales, Northern Ireland, England and Scotland, because, obviously, if you impose cost recovery in one administration, it increases the cost of fishing there, and that might then put pressure on fisheries activities in other areas. So, I think that's something that has to be considered...”⁵⁵

Ein barn ni

Ni ddilynodd y Pwyllgor y darpariaethau hyn gyda'r Gweinidog mewn gohebiaeth. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog egluro'r pwrpas y mae'n ceisio'r pwerau hyn ar ei gyfer ac o dan ba amgylchiadau y mae'n rhagweld y byddant yn cael eu defnyddio. Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch unrhyw gynnig sy'n codi o'r darpariaethau hyn. Rydym hefyd yn disgwyl i reoliadau sy'n codi o'r pwerau hyn fod yn destun asesiad effaith ariannol cynhwysfawr.

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog egluro'r pwrpas y mae'n ceisio pwerau ar ei gyfer i gyflwyno taliadau ac o dan ba amgylchiadau y mae'n rhagweld y bydd yn eu defnyddio. Dylai cynigion sy'n codi o'r darpariaethau hyn fod yn destun ymgynghoriad ac asesiad effaith ariannol cynhwysfawr.

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 221-223, 11 Mawrth 2020

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 96-97, 11 Mawrth 2020

8. Gwelliannau i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

111. Mae Rhan 2 o Atodlen 9 yn diwygio Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 i roi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â manteisio ar adnoddau pysgodfeydd môr. Byddai'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru:

- i wneud gorchmynion mewn perthynas â Chymru at ddibenion gwarchod fflora a ffawna morol neu gynefinoedd morol neu fathau o gynefinoedd morol;
- gwneud gorchmynion mewn perthynas â dyfroedd môr mawr Cymru at ddibenion gwarchod fflora a ffawna morol, cynefinoedd morol neu fathau o gynefinoedd morol a nodweddion o ddiddordeb daearegol neu geomorffolegol.

112. Ar hyn o bryd, dim ond mewn cysylltiad â Pharthau Cadwraeth Morol y gall Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion, mewn perthynas â rhanbarth y glannau (0-12 milltir forol). Y mae un parth o'r fath.

113. Ni ellir arfer y pwerau hyn drwy offeryn statudol. O'r herwydd, ni fyddai'r Senedd fel mater o drefn yn craffu ar orchmynion a wneir o dan y pwerau hyn.

114. Mae'r darpariaethau uchod fwy neu lai yr un fath â'r rhai sydd wedi eu cynnwys ym Mil 2017-19.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

115. Roedd cefnogaeth eang o blaid y darpariaethau yn Rhan 2 o Atodlen 9. Dywedodd Griffin Carpenter y gallai pwerau estynedig Gweinidog Cymru mewn perthynas ag ecsbloetio adnoddau pysgodfeydd môr "fod yn chwyldroadol o bosibl". Eglurodd:

"...it might be the type of thing that we'll look back on in five or 10 years and not realise how important this was. So, for example, with the climate change objective, Wales or any other fisheries administration could say, 'We're not going to allow fisheries in this whole region. We need to protect the habitat where carbon is stored'. You also have this equal-access objective, where fishers from different administrations can move freely within UK waters. So, you would have this whole zone that is designated as a non-fishing zone...So, what I'm saying is that, potentially, you could have a very forward-looking climate-focused

Government that uses this provision in a very strict way that, maybe, we're not anticipating at the moment.”⁵⁶

116. Dywedodd yr RSPB fod y pwerau estynedig yn ffordd ychwanegol i helpu i gyflawni statws amgylcheddol da yn yr amgylchedd morol ac i gynorthwyo'r gwaith o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy.⁵⁷

Ein barn ni

Ni ddilynodd y Pwyllgor y darpariaethau hyn gyda'r Gweinidog mewn gohebiaeth. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn falch o gael cadarnhad ar y mater a ganlyn.

Nid yw gorchmynion a grëir o dan bwerau eang Atodlen 9 Bil 2019-21 yn Offerynnau Statudol. Yn wahanol i bwerau tebyg a ddarperir ar gyfer Gweinidogion yr Alban sy'n cael eu trin fel Offerynnau Statudol yr Alban o ganlyniad i Ddeddf yn Senedd yr Alban, ni fydd y pwerau i Weinidogion Cymru yn destun craffu awtomatig gan y Senedd. Byddem yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn egluro sut bydd hi'n sicrhau tryloywder a chraffu ar orchmynion a wneir wrth ddibynnu ar y pwerau hyn.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog nodi pa gyfleoedd fydd ar gael i'r Senedd a rhanddeiliaid drafod a chraffu ar Orchmynion a grëwyd o dan bwerau eang adrannau 134A a 134B o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, fel y'u mewnosodwyd yn Atodlen 9 o Fil 2019-21.

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 11 Mawrth 2020

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 333-336, 11 Mawrth 2020

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
11 Mawrth 2020	Debbie Crockard Cymdeithas Cadwraeth Forol - yn cynrychioli Greener UK Gareth Cunningham RSPB Cymru Sarah Denman Client Earth Jim Evans Cymdeithas Pysgotwyr Cymru Yr Athro Richard Barnes Prifysgol Hull Griffin Carpenter New Economics Foundation

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
FB 01	Cymdeithas Cadwraeth Forol, RSPB a Client Earth
FB 02	Yr Athro Richard Barnes, Prifysgol Caerefrog
FB 03	Dr Bryce Stewart, Prifysgol Hull
FB 04	James Wilson, Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
FB 02a Yr Athro Richard Barnes, Prifysgol Caerefrog	13 Mawrth 2020